



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Arian

Dyddiad cyhoeddi: **Medi 2015**



Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Arian

Cynulleidfa

Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y safonau ansawdd, dangosyddion a disgrifyddion gradd ar gyfer Marc Ansawdd Lefel Arian ac yn darparu templed i sefydliadau ei ddefnyddio ar gyfer cwblhau hunanasesiad.

Camau i'w cymryd

Gall sefydliadau ddefnyddio'r safonau ansawdd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i arwain y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Dîm Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Is-adran Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu Ieuenctid

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9RZ

e-bost: youthwork@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/quality-mark/?lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad ac arweiniad (2015)

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Efydd (2015)

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Aur (2015)

Cynnwys

Safonau ansawdd Lefel Arian	2
Cynnwys pobl ifanc	3
Cwricwlwm	8
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	14
Datblygu'r gweithlu	18
Atodiad A: Templed hunanasesu Marc Ansawdd ar gyfer y Lefel Arian	23

Safonau ansawdd Lefel Arian

Mae'r Lefel Arian yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cydnabod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn cael effaith ar eu canlyniadau ac yn cael ei gyflwyno gan weithlu sydd wedi cymhwyso'n briodol ac yn cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

2.1 Cynnwys pobl ifanc	Ansawdd cyfranogiad pobl ifanc a newidiadau a gwelliannau o ganlyniad i adborth ac ymwneud pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau.
2.2 Cwricwlwm	Effeithiolrwydd cwricwlwm y sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu cyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol sy'n cyd-fynd â'i nodau a'i amcanion, yn diwallu anghenion pobl ifanc ac yn cyfrannu at wella eu canlyniadau a'u cyfleoedd bywyd.
2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth	Effaith polisiâu ac ymarfer y sefydliad ar wella'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth a chyfranogiad yr holl bobl ifanc a'u galluogi i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.
2.4 Datblygu'r gweithlu	Effaith datblygu'r gweithlu ar wella ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r safonau ansawdd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i arwain y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Cynnwys pobl ifanc

Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013) yn diffinio ymarfer cyfranogol fel,

*“annog a chefnogi pobl ifanc i fod yn bartneriaid a rhannu cyfrifoldebau am y cyfleoedd, y prosesau dysgu a'r strwythurau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac ar eu hamgylcheddau eu hunain ac ar fywydau ac amgylcheddau eraill”*¹

Mae cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn un o'r pum piler sy'n sylfaen i waith ieuenctid yng Nghymru. Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)² yn datgan

“mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.”

Mae safon cynnwys pobl ifanc yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a pha mor dda y mae sefydliadau;

- yn mynd ati i wrando ar bobl ifanc;
- yn mynd ati i gynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau;
- yn arddangos sut y mae safbwyntiau a barn pobl ifanc yn arwain at newid a gwelliant gwirioneddol i'r sefydliad/rhaglen;
- wedi gweithredu Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) <http://www.participationworkerswales.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/National-Participation-Standards.pdf>;
- wedi gweithredu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/childrenandfamilies/?skip=1&lang=cy>.

Dylai'r dystiolaeth ar gyfer y safon *Cynnwys pobl ifanc* ddangos:

- strategaeth glir ar gyfer cynnwys plant ifanc yn weithredol;
- bod pobl ifanc yn rheolaidd yn rhoi adborth ar ansawdd ac amrywiaeth y gwaith ieuenctid y maent yn rhan ohono;
- bod adborth pobl ifanc yn arwain at newid a gwelliant;
- bod pobl ifanc yn ymwybodol o sut y mae eu llais wedi arwain at newid.

¹ Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (CLILC, 2013) <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>

² Set o safonau gofynnol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. <http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/index.php/children-young-people/right>

Lefel Arian: Dangosyddion cynnwys pobl ifanc	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad strategaeth neu gynllun ar waith i sicrhau: - ymwneud gweithredol pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau; - bod pobl ifanc yn cyfrannu at waith y sefydliad; - cyfraniad pobl ifanc i'w cymuned.	Mae strategaeth neu gynllun ar waith ar gyfer sicrhau ymwneud gweithredol pobl ifanc. Mae ystod o ddulliau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod adborth gan bobl ifanc yn cyfrannu at waith y sefydliad. Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc yn dylanwadu ar y ddarpariaeth, cynlluniau, adnoddau, cyfathrebu a sicrwydd ansawdd. Ceir cyfleoedd ar gyfer ymwneud gweithredol pobl ifanc yn eu cymuned. Mae pobl ifanc yn ymwybodol o sut y mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/penderfyniadau ynghylch y sefydliad/y rhaglen/y gymuned leol.	Mae strategaeth neu gynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc. Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc o bryd i'w gilydd yn dylanwadu ar ddarpariaeth, cynlluniau, adnoddau, cyfathrebu a sicrwydd ansawdd. Mae'r sefydliad o bryd i'w gilydd yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud yn weithredol yn eu cymuned eu hunain. O bryd i'w gilydd, mae pobl ifanc yn dod yn ymwybodol o sut y mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/ penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r sefydliad/rhaglen.	Nid oes strategaeth neu gynllun yn ei le i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc. Ceir enghreifftiau unigol o ymwneud gweithredol ond hyd yn hyn nid oes strategaeth ar gyfer cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith mewn modd cyson. Mae'r sefydliad eto i roi cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud yn weithredol yn eu cymunedau eu hunain. Nid yw pobl ifanc yn ymwybodol o sut y mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r sefydliad/rhaglen.

Lefel Arian: Dangosyddion cynnwys pobl ifanc	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso eu strategaeth neu gynllun sy'n sicrhau ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at eu gwaith.	Mae gan y sefydliad system gadarn ar waith ar gyfer monitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad. Mae'r sefydliad wedi cwblhau hunanasesiad yn ôl y Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) neu safonau tebyg.	Mae systemau'n cael eu datblygu i fonitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad. Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn cynnal hunanasesiad yn ôl Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) neu safonau tebyg.	Ceir ambell enghraifft o fonitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad. Nid yw'r sefydliad wedi cynnal hunanasesiad yn ôl Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) neu safonau tebyg. Mae strategaeth neu gynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc.
Mae effaith ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad ar bob lefel yn cael ei nodi a'i fesur.	O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ceir tystiolaeth o newid a gwelliant parhaus o fewn y sefydliad, dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae pobl ifanc yn cael gwybod fel mater o drefn am y newidiadau a'r gwelliannau a	O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, ceir tystiolaeth o newidiadau o fewn y sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan y sefydliad gynlluniau yn eu lle i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mwy o	O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ceir ambell enghraifft o newid. Ceir ymrwymiad i wella ymwneud gweithredol pobl ifanc.

Lefel Arian: Dangosyddion cynnwys pobl ifanc	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	wnaed o ganlyniad i'w hymwneud gweithredol. Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn cael ei gydnabod, ei gofnodi neu ei achredu.	gyfleoedd ar gyfer ymwneud yn weithredol er mwyn dylanwadu newid a gwelliant.	

Enghreifftiau o dystiolaeth:

- Strategaeth neu gynllun ar gyfer ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.
- Gosod targedau a monitro perfformiad mewn perthynas ag ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.
- Casglu data mewn perthynas â thargedau ar gyfer cynnwys pobl ifanc.
- Adnoddau, strwythurau a phrosesau ar gyfer cefnogi ymwneud gweithredol pobl ifanc.
- Cwblhau hunanasesiad Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) neu safonau tebyg.
- Ymrwymiad i'r CCUHP, yn enwedig Erthygl 12.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc a gyhoeddir gan y sefydliad.
- Enghreifftiau o ymwneud pobl ifanc wrth gynllunio, cyflwyno, monitro a gwerthuso cwricwlwm.
- Enghreifftiau o ymwneud pobl ifanc wrth gynllunio prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau a digwyddiadau.
- Enghreifftiau o ymwneud pobl ifanc wrth adolygu a gwerthuso prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau a digwyddiadau.
- Tystiolaeth o ymwneud pobl ifanc wrth lunio, comisiynu neu ddarparu gwasanaethau.
- Tystiolaeth o gyfranogiad pobl ifanc ar bwyllgorau rheoli, pwyllgorau aelodau neu grwpiau tebyg yn eu canolfannau ieuenctid a'u prosiectau eu hunain.

- Tystiolaeth o newid a gwelliant gweladwy o ganlyniad i ymwneud pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.
- Tystiolaeth o sut y mae adborth pobl ifanc wedi arwain at newid a gwelliant.
- Enghreifftiau o adborth i bobl ifanc ar newid a gwelliant o ganlyniad i'w hymwneud gweithredol.
- Enghreifftiau o ymwneud gweithredol pobl ifanc yn eu cymunedau, er enghraifft Fforymau Ieuenctid, Cyngorau Ieuenctid neu Seneddau Ieuenctid.
- Data ar etholiadau ieuenctid lleol a phrosesau democrataidd eraill.
- Enghreifftiau o ddysgu a chyflawniad pobl ifanc o ganlyniad i ymwneud gweithredol.
- Enghreifftiau o ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth recriwtio a dethol a phennu gwariant.
- Cymeradwyaeth gan bobl ifanc.

Cwricwlwm

“Dangoswyd bod ymyriadau gwaith ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysg ffurfiol, ymddygiad, presenoldeb a dilyniant drwy gamau pontio allweddol. Felly, credwn y gall arfer gwaith ieuenctid wedi'i rymuso ac wedi'i ymgorffori ddangos sut mae'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at fywydau pobl ifanc yng Nghymru ac y dylid disgwyl iddo wneud hynny.” Rhagair y Gweinidog i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018³

Mae'r safon *Cwricwlwm* yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae cwricwlwm y sefydliad yn:

- cefnogi ac yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer pobl ifanc, sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y sefydliad;
- diwallu anghenion pobl ifanc;
- cyfrannu at wella canlyniadau a chyfleoedd bywyd pobl ifanc.

Dylai fod datganiad cwricwlwm clir sy'n amlinellu sut y mae'r sefydliad yn gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol ac yn eu cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn. Ceir disgwyliad y dylai'r cwricwlwm fod yn eang, yn gytbwys ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer diwallu anghenion amrywiaeth o bobl ifanc.

Y cwricwlwm yw'r holl weithgareddau a phrofiadau a ddarperir gan y sefydliad gydag ac ar gyfer pobl ifanc, a dylai:

- gynnwys ystod eang o weithgareddau addysgol a hamdden yn seiliedig ar Bum Piler Gwaith Ieuenctid⁴;
- rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu, dysgu, datblygu, mwynhau eu hunain, gwneud cynnydd, gwerthuso, a chydabod eu dysgu;
- cynnwys cyfeiriadau at y dulliau y mae'n cael ei weithredu drwyddynt;
- cael ei gefnogi gan fframwaith o ddysgu wedi'i gynllunio.

Hefyd, dylai fod sefydliadau adolygu priodoldeb ac ansawdd y cwricwlwm a sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid.

³ Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018. Mae'r strategaeth i'w gweld yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/national-youth-work-strategy-for-wales/?force=cy>

⁴ *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013)* <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>

Dylai'r dystiolaeth i gefnogi'r safon *cwricwlwm* ddangos sut y mae'r sefydliad:

- yn asesu anghenion pobl ifanc;
- yn cynllunio i ddiwallu anghenion pobl ifanc a darparu tystiolaeth o'r modd y caiff eu cynlluniau eu datblygu a'u gweithredu;
- yn cynorthwyo pobl ifanc i ymestyn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau;
- yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc drwy eu cwricwlwm/rhaglen o weithgareddau gwaith ieuenctid;
- yn cysoni eu gwaith gyda phobl ifanc â blaenoriaethau lleol, er enghraifft y blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Gymunedol leol, Cynllun Integredig Sengl yr ardal leol a chynllun gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.
- yn cysoni eu nodau a'u hamcanion ar gyfer eu gwaith gyda phobl ifanc â blaenoriaethau cynlluniau a strategaethau cenedlaethol, er enghraifft;
 - Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru (2014-2018)
[http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/national-youth-work-strategy-for-wales/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/national-youth-work-strategy-for-wales/?skip=1&lang=cy;);
 - Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013)
<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy>;
 - Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013) <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>;
 - Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy>
 - Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007)
<http://www.participationworkerswales.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/National-Participation-Standards.pdf>;
 - Iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012 - 2017
<http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/?skip=1&lang=cy>

Lefel Arian: Dangosyddion cwricwlwm	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad gwricwlwm ar gyfer gwaith ieuenctid ac mae'r gweithlu yn ei gyflwyno'n hyderus.	Mae'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc ac yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl	Mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n effeithiol a chynlluniau i wella ei gyfraniad tuag at flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer	Nid oes cysylltiad clir rhwng y cwricwlwm a diwallu anghenion pobl ifanc neu flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.

Lefel Arian: Dangosyddion cwricwlwm	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	ifanc. I gefnogi cynllunio a darparu gwaith ieuenctid effeithiol, darperir hyfforddiant perthnasol, datblygu proffesiynol a goruchwyliaeth, ac mae'r gweithlu'n cymryd rhan. Mae'r gweithlu, ar bob lefel, yn deall sut i gymhwyso cwricwlwm eu sefydliad ac yn hyderus wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni gwaith ieuenctid.	pobl ifanc. Mae hyfforddiant, datblygu proffesiynol a goruchwyliaeth ar gyfer y gweithlu yn cael ei adolygu i gefnogi cynllunio a darparu gwaith ieuenctid effeithiol. Nid yw'r cwricwlwm yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y sefydliad ar hyn o bryd.	Mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.
Mae'r sefydliad yn cynnal dadansoddiad o anghenion parhaus i lywio'r ystod a'r math o ddarpariaeth y maent yn ei chynnig i bobl ifanc. Mae darpariaeth y sefydliad yn mynd i'r afael â gwahanol anghenion, diddordebau ac amgylchiadau pobl ifanc.	Mae canlyniadau'r dadansoddiad o anghenion parhaus yn cael eu defnyddio i lywio'r ystod a'r math o ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig ac sy'n cael ei gynnal gyda phobl ifanc. Mae cyswllt cadarn rhwng asesiadau o anghenion pobl ifanc a newidiadau a wnaed i'r ystod a'r math o ddarpariaeth	Mae gwybodaeth am anghenion yn cael ei hasesu ond nid yw'n cael ei dadansoddi'n systematig ar hyn o bryd. Ceir enghreifftiau o gysylltiadau rhwng asesiadau o anghenion pobl ifanc a newidiadau a wnaed i'r ystod a'r math o ddarpariaeth a gynigir iddynt.	Cyfyngedig yw tystiolaeth y sefydliad o asesiad o anghenion. Nid yw'r ystod a'r math o ddarpariaeth yn cael eu llywio ar hyn o bryd gan ganlyniadau dadansoddiad o anghenion pobl ifanc.

Lefel Arian: Dangosyddion cwrwclwm	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	a gynigir iddynt. Mae pobl ifanc yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog o ansawdd da lle bo hynny'n briodol.		
Mae pobl ifanc yn elwa wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir gan y sefydliad.	Mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu sgiliau personol a chymdeithasol wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Ceir enghreifftiau helaeth o sut y mae cymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.	Mae yna rai enghreifftiau o bobl ifanc yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Mae yna rai enghreifftiau o bobl ifanc yn datblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Ceir rhai enghreifftiau o sut y mae cymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.	Yn sgîl ymwneud â'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid mae datblygiad personol a chymdeithasol a dysgu pobl ifanc yn anghyson. Prin yw'r enghreifftiau o sut y mae ymwneud â'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.

Enghreifftiau o dystiolaeth:

- Cwricwlwm neu ddatganiad cwricwlwm y sefydliad.
- Tystiolaeth o sut y mae cwricwlwm y sefydliad yn cysylltu â Phum Piler Gwaith Ieuenctid yng Nghymru fel y'u nodwyd yn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013) <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>.
- Mae'r sefydliad wedi nodi cysylltiadau rhwng ei gwricwlwm a chynlluniau a strategaethau lleol a chenedlaethol.
- Mae'r sefydliad yn gallu dangos sut y mae canlyniadau asesiadau o anghenion a dadansoddiadau, proffiliau cymunedol neu adroddiadau wedi llywio newid o fewn y sefydliad.
- Mae'r sefydliad yn gallu dangos sut y mae adborth, gwerthuso a mewnbwn pobl ifanc yn y broses o gynllunio yn llywio newidiadau i ystod, math a chymysgedd y ddarpariaeth a gynigir fel mater o drefn.
- Cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan gynnwys goruchwyliaeth, arfarnu a hyfforddiant i gefnogi gweithrediad effeithiol y cwricwlwm.
- Tystiolaeth fod y gweithlu yn mynychu cyfleoedd datblygu proffesiynol sy'n cefnogi gweithrediad effeithiol y cwricwlwm.
- Enghreifftiau o bobl ifanc yn cynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni gwaith ieuenctid.
- Canlyniadau arolwg defnyddwyr y bobl ifanc a thystiolaeth o waith dilynol.
- Enghreifftiau o gofnodion sesiwn/prosiect y sefydliad a chynlluniau gweithredu.
- Cwblhau hunanasesiad Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) <http://www.participationworkerswales.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/National-Participation-Standards.pdf>.
- Astudiaethau achos/data yn dangos fod cymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi gwella canlyniadau neu gyfleoedd bywyd pobl ifanc.
- Astudiaethau achos sy'n dangos dealltwriaeth y gweithlu o sut y mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a blaenoriaethau ehangach y sefydliad ar gyfer pobl ifanc.
- Cynlluniau busnes/cyflawni/gweithredol ac adroddiadau'r sefydliad.
- Cynlluniau a gwerthusiadau pobl ifanc.
- Portffolios pobl ifanc ar gyfer dyfarniadau achrededig o ymwneud â'r ddarpariaeth a gynigir gan y sefydliad.
- Asesiad o anghenion ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i bennu anghenion pobl ifanc.
- Asesiad a dadansoddiad o anghenion siaradwyr Cymraeg a'r cynlluniau sy'n deillio ohonynt, a'u gweithrediad.
- Tystiolaeth o ymgynghori â phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth a deall yn well pa weithgareddau y maent yn dymuno'u cyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg a pha wasanaethau y maent yn dymuno eu cael drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio Cymraeg yn anffurfiol mewn lleoliadau gwaith ieuenctid.
- Tystiolaeth o ddatblygu'r gweithlu i wella ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'w galluogi i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013) yn cadarnhau pwysigrwydd cynhwysiant a chyfle cyfartal. Mae'n disgrifio ymarfer cynhwysol fel,

“[g]alluogi pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau ac ymddygiad cadarnhaol mewn perthynas â:

- *Hunaniaeth ac amrywiaeth hiliol, cymdeithasol a diwylliannol;*
- *Treftadaeth;*
- *Ieithoedd a gwerth eu hiaith eu hunain ac ieithoedd eraill;*
- *Dinasyddiaeth;*
- *Parchu dewisiadau pobl eraill.*⁵

Mae'r safon cydraddoldeb ac amrywiaeth yn canolbwyntio ar y modd y mae polisiâu ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gwella mynediad pobl ifanc at gyfleoedd gwaith ieuenctid yn ogystal â'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni.

Dylai'r dystiolaeth i gefnogi'r safon *cydraddoldeb ac amrywiaeth* ddangos:

- bod gan y sefydliad bolisiâu cyfredol yn eu lle a bod cynlluniau gweithredu ar waith i wella mynediad a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai brofi anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, treftadaeth, crefydd neu gred;
- bod gan y sefydliad weithdrefnau monitro ac adrodd yn eu lle i ddangos lefelau mynychu gwahanol grwpiau o bobl ifanc, er enghraifft yn ôl ethnigrwydd, rhyw, anabledd, diwylliant neu dreftadaeth;
- effaith polisi ac ymarfer ar gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad o wahanol grwpiau o bobl ifanc, er enghraifft yn ôl ethnigrwydd, rhyw, anabledd, diwylliant neu dreftadaeth;
- cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a gynigir, a lefelau eu mynychu gan y gweithlu;
- bod pobl ifanc wedi ymestyn eu gwybodaeth am, a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy fynychu darpariaeth gwaith ieuenctid.

⁵ Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (CLILC 2013) <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>

Lefel Arian: Dangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei bolisi/polisiau a'i ymarfer.	Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol a chynllun gweithredu cysylltiedig.	Ceir polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu.	Mae polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu lle ond nid yw'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu hyd yn hyn.
	Ceir rhaglen o gyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.	Ceir cynlluniau i ddarparu cyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.	Nid yw'r gweithlu wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth hyd yn hyn.
	Mae'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.	Ceir rhai enghreifftiau o sut y mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael sylw yn y cwricwlwm.	Mae'r modd yr eir i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cwricwlwm yn anghyson.
	Mae pobl ifanc wedi ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.	Mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu a chynlluniau i sicrhau bod pobl ifanc, y gweithlu a rhanddeiliaid eraill yn gwybod sut i'w defnyddio.	Nid oes gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu wedi cael eu datblygu na'u gweithredu hyd yn hyn .
	Mae gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu yn cael eu cyfathrebu i bobl ifanc, y gweithlu a rhanddeiliaid eraill.		
	Mae cwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu yn		

Lefel Arian: Dangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	cael eu cofnodi a'u monitro i sicrhau eu bod wedi cael eu hymchwilio a'u trin yn effeithiol.		
Caiff effaith polisi/polisïau ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth y sefydliad ei monitro a'i gwerthuso.	Ceir gweithdrefn gadarn ar gyfer defnyddio data i fonitro effaith polisi/polisïau ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae data ar lefelau mynychu, cyflawniad a chynnydd pobl ifanc a allai fod yn profi anfantais yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwella a llywio cynlluniau gweithredu ac ymarfer.	Ceir cynllun i wella gweithdrefnau ar gyfer defnyddio data i fonitro effaith polisi/polisïau ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae data ar lefelau mynychu grwpiau gwahanol o bobl ifanc a allai fod yn profi anfantais yn cael ei gasglu ac mae cynlluniau ar waith i wella cywirdeb a phrosesau dadansoddi.	Mae prosesau casglu a monitro data yn cael eu datblygu.
Mae polisi/polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad yn cael eu rhoi ar waith ac yn arwain at newid a gwelliant.	Mae polisi/polisïau ac ymarfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn arwain at wella lefelau mynychu a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai fod yn profi anfantais. Mae'r sefydliad yn galluogi pobl ifanc a'r gweithlu i	Mae cynlluniau yn cael eu datblygu i wella lefelau mynychu a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai fod yn profi anfantais. Ceir enghreifftiau o'r sefydliad yn galluogi'r gweithlu a phobl ifanc i archwilio cydraddoldeb	Cyfyngedig yw'r dystiolaeth fod lefelau mynychu a chanlyniadau yn gwella i grwpiau o bobl ifanc a allai fod yn profi anfantais. Nid yw'r gweithlu a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n datblygu eu

Lefel Arian: Dangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.	ac amrywiaeth.	gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar hyn o bryd.

Enghreifftiau o dystiolaeth:

- Polisiâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol gyda chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Rhaglen o gyfleoedd hyfforddi a datblygu'r gweithlu ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Enghreifftiau o sut y mae cyfleoedd datblygu yn gwella gallu'r gweithlu i archwilio a mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth gyda phobl ifanc.
- Casglu a dadansoddi data ar y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau o blith gwahanol grwpiau o bobl ifanc, a sut y caiff hyn ei ddefnyddio i lywio cynlluniau.
- Adroddiadau monitro ac adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch gwahaniaethu ac aflonyddu, dystiolaeth o sut y rhoddir gwybod i bobl ifanc, staff a rhanddeiliaid am y rhain, a thystiolaeth o sut y caiff cwynion eu trin.
- Trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y drefn gwyno.
- Enghreifftiau o asesiadau o anghenion gwahanol grwpiau o bobl ifanc, er enghraifft, rhai a allai fod yn profi anfantais.
- Enghreifftiau o dargedu grwpiau penodol o bobl ifanc.
- Dadansoddiad o lefelau mynychu a chanlyniadau i grwpiau penodol o bobl ifanc, megis rhai a allai fod yn profi anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, treftadaeth, crefydd neu gred.
- Enghreifftiau o sut y mae gweithredu polisi/polisiâu ac ymarfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gwella lefelau mynychu i grwpiau penodol o bobl ifanc, er enghraifft rhai a allai fod yn profi anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, treftadaeth, crefydd neu gred.
- Enghreifftiau o sut y mae gweithredu polisi/polisiâu ac ymarfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gwella profiadau pobl ifanc o gael mynediad at, a chyfranogi mewn gwaith ieuenctid.

Datblygu'r gweithlu

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru (2014-2018) yn cydnabod y dylai pobl ifanc gael eu cefnogi gan ymarferwyr gwaith ieuenctid medrus a chymwys. Mae gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir gwaith ieuenctid o ansawdd uchel. Mae'r term 'gweithlu' yn cynnwys staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc a allai fod yn wirfoddolwyr neu'n uwch aelodau.

Mae safon *datblygu'r gweithlu* yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith cyfleoedd datblygu proffesiynol a sut y cânt eu hasesu. Mae disgwyl i'r sefydliad hyrwyddo cyfleoedd datblygu proffesiynol hygyrch i'w weithlu. Mae'r term 'datblygu proffesiynol' yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau megis hyfforddiant, mentora, sesiynau briffio, cysgodi, goruchwyllo myfyriol, cymryd rhan mewn dysgu gweithredol a chymunedau ymarfer.

Dylai'r dystiolaeth ar gyfer y safon *datblygu'r gweithlu* ddangos:

- bod gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o rôl dysgu heb fod yn ffurfiol;
- bod y sefydliad yn buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu;
- bod y sefydliad yn rhoi camau ar waith i sicrhau bod ganddo weithlu wedi'i hyfforddi'n briodol, gyda chymwysterau proffesiynol perthnasol i'w rolau lle bo angen;
- sut y mae'r sefydliad yn asesu anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny;
- sut y mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd ac effaith cyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Noder: asesir bod sefydliadau sydd wedi cyflawni Marc Ansawdd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) ar gyfer Datblygu'r Gweithlu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi arddangos ymarfer da yn ôl pob un o'r dangosyddion yn y safon hon.

Lefel Arian: Dangosyddion Datblygu'r Gweithlu	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth Datblygu'r Gweithlu.	Caiff polisi neu strategaeth Datblygu'r Gweithlu ei gymhwyso'n gyson ym mhob maes gwaith gyda phobl ifanc. Mae gweithlu'r sefydliad yn ymwybodol o'r polisi neu'r strategaeth a chyfleoedd datblygu proffesiynol. Mae prosesau rheoli perfformiad, goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd yn hyrwyddo a chefnogi datblygu proffesiynol.	Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu nad yw wedi cael ei gymhwyso ym mhob maes gwaith gyda phobl ifanc, neu mae eto i gael ei gymhwyso'n gyson i bob aelod o'r gweithlu. Mae pob aelod o'r gweithlu'n ymwybodol o gyfleoedd datblygu proffesiynol. Mae'r gweithlu'n cael ei oruchwyllo a'i werthuso'n rheolaidd.	Nid yw polisi neu strategaeth datblygu gweithlu'r sefydliad wedi cael ei ddatblygu na'i roi ar waith yn llawn hyd yn hyn. Mae staff cyflogedig yn ymwybodol o weithgareddau datblygu proffesiynol ond hyd yn hyn nid yw'r cyfleoedd hyn wedi dod ar gael i wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc y sefydliad. Caiff goruchwyllo a gwerthuso ei gyflawni ar sail ad hoc.
Mae'r sefydliad yn buddsoddi mewn Datblygu'r Gweithlu ac mae'r buddsoddiad hwn i'w weld yn eu hymarfer.	Caiff anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd eu hasesu, ac eir i'r afael â'r rhain yn rheolaidd. Mae'r gweithlu'n cael mynediad at, ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.	Mae yna gynlluniau i sicrhau proses fwy strwythuredig ar gyfer asesu a mynd i'r afael ag anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Mae'r sefydliad yn rhoi camau ar waith i wella ystod ac amrywiaeth y cyfleoedd datblygu proffesiynol.	Mae'r ymgysylltiad â gweithgareddau datblygu proffesiynol yn anghyson. Nid yw cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cael eu cysylltu ag asesiad systematig o anghenion y gweithlu ar hyn o bryd. Nid yw ansawdd ac effaith y cyfleoedd datblygu

Lefel Arian: Dangosyddion Datblygu'r Gweithlu	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	Caiff gweithgareddau datblygu proffesiynol eu cyflwyno mewn modd, a chânt eu cynnig ac ar adegau sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i'r gweithlu cyfan. Caiff adborth a gwerthusiadau eu defnyddio i asesu a gwella ansawdd ac effaith datblygu proffesiynol.	Mae yna gynlluniau i sicrhau bod cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd ac ar adegau sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i'r gweithlu cyfan. Ceir cynlluniau i ddefnyddio adborth a gwerthusiadau i asesu ansawdd ac effaith cyfleoedd datblygu proffesiynol.	proffesiynol yn cael eu monitro a'u gwerthuso ar hyn o bryd.
Mae gan y sefydliad weithlu sy'n addas at y diben o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.	Mae cyfleoedd datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Mae'r cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc ac amcanion y sefydliad wedi cael eu nodi. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi, neu yn gweithio tuag at y cymwysterau proffesiynol mwyaf priodol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc ac	Mae gan y sefydliad gynlluniau i asesu sut y mae datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith gwaith ieuenctid. Mae'r cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc ac amcanion y sefydliad yn cael eu nodi. Mae rhai o'r gweithlu yn meddu ar, neu'n gweithio tuag at y cymwysterau proffesiynol mwyaf priodol i gwrdd ag	Hyd yn hyn, nid yw'r sefydliad wedi asesu sut y mae datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith gwaith ieuenctid. Hyd yn hyn, nid yw'r cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc ac amcanion y sefydliad wedi cael eu nodi. Ni cheir proses systematig ar gyfer darparu cyfleoedd i'r gweithlu ennill cymwysterau

Lefel Arian: Dangosyddion Datblygu'r Gweithlu	Disgrifyddion gradd		
	Ymarfer Da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
	amcanion y sefydliad. Mae'r sefydliad yn cydnabod ac yn dathlu ymwneud y gweithlu â datblygu proffesiynol ac achredu.	anghenion pobl ifanc ac amcanion y sefydliad.	proffesiynol.

Enghreifftiau o dystiolaeth:

- Polisi neu strategaeth Datblygu'r Gweithlu'r sefydliad.
- Prosesau ar gyfer nodi anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu fel unigolion a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; er enghraifft archwiliadau hyfforddiant a chymwysterau.
- Cynllun hyfforddi a datblygu'r sefydliad gyda thystiolaeth o gysylltiadau â blaenoriaethau polisi sefydliadol, lleol a chenedlaethol.
- Enghreifftiau o addasu cyfleoedd datblygu proffesiynol i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ag anableddau, staff rhan-amser a gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc.
- Polisi a gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu'r sefydliad.
- Cofnodion goruchwylio, adolygu perfformiad ac arfarnu'r sefydliad.
- Cyhoeddusrwydd y sefydliad ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd datblygu proffesiynol.
- Sesiynau briffio'r sefydliad ar gyfer y gweithlu ar ddatblygiadau cenedlaethol a lleol mewn gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill ar gyfer pobl ifanc.
- Canran o gyllideb y sefydliad a werir ar hyfforddiant/datblygu'r gweithlu.
- Adborth o arolygon (pobl ifanc, rhanddeiliaid a'r gweithlu) ar ansawdd gweithgareddau'r sefydliad ar gyfer datblygu'r gweithlu.
- Niferoedd/cyfrannau o weithlu'r sefydliad sydd â chymwysterau proffesiynol priodol.
- Niferoedd/cyfrannau o weithlu'r sefydliad sy'n gweithio tuag at gymwysterau proffesiynol priodol.
- Niferoedd/cyfrannau o aelodau o weithlu'r sefydliad sydd heb gymhwyster.

- Cymeradwyaeth drwy fframweithiau eraill (megis Buddsoddwyr mewn Pobl a Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr).
- Hunanasesiadau'r sefydliad yn ôl safonau ansawdd ar gyfer datblygu'r gweithlu, er enghraifft Marc Ansawdd CWVYS ar gyfer Datblygu'r Gweithlu neu Farc Ansawdd Drafft safonau Datblygu'r Gweithlu ETS Cymru.
- Enghreifftiau o sut y mae datblygu gweithlu'r sefydliad wedi arwain at wella'r ddarpariaeth a chanlyniadau i bobl ifanc.

Atodiad: Templed hunanasesu Marc Ansawdd ar gyfer y Lefel Arian

Mae'r templed hunanasesu i'w ddefnyddio gan sefydliadau i ysgrifennu naratif yn disgrifio sut y maent wedi cyflawni pob un o'r dangosyddion ar gyfer Lefel Arian y Marc Ansawdd. Dylai'r naratif gynnwys unrhyw ddysgu sydd wedi deillio o'r broses hunanasesu a chynlluniau ar gyfer gwelliant pellach. Hefyd, dylai'r sefydliad ddarparu hunanasesiad o radd ar gyfer pob un o'r dangosyddion.

Dylai sefydliadau ddarparu cyswllt â thystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi cyflawni'r dangosydd. Lle bo modd dylid darparu hyperddolen i'r dystiolaeth. Os nad yw hynny'n bosibl dylai'r dystiolaeth gael ei darparu mewn ffeiliau electronig neu ar ffurf copi caled.

Er mwyn ennill Marc Ansawdd ar y Lefel Arian rhaid i'r sefydliad ddangos ei fod wedi cyflawni gradd 'ymarfer da' ym mhob un o'r dangosyddion. Dylid defnyddio'r disgrifyddion gradd a ddarperir yn y Safonau Ansawdd ar gyfer y lefel hon i helpu'r sefydliad i ganfod a yw ei naratif a'i dystiolaeth ategol yn dangos gradd 'ymarfer da'.

2.1 Cynnwys pobl ifanc

Lefel Arian: Dangosyddion cynnwys pobl ifanc	Naratif hunanasesu gyda chysylltiadau â thystiolaeth ategol	Gradd
Mae gan y sefydliad strategaeth neu gynllun ar waith i sicrhau: - ymwneud gweithredol pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau; - bod pobl ifanc yn cyfrannu at waith y sefydliad; - cyfraniad pobl ifanc i'w cymuned.		
Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso eu strategaeth neu gynllun sy'n sicrhau ymwneud gweithredol pobl		

ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at eu gwaith.		
Mae effaith ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad ar bob lefel yn cael ei nodi a'i fesur.		

2.2 Cwricwlwm

Lefel Arian: Dangosyddion cwricwlwm	Naratif hunanasesu gyda chysylltiadau â thystiolaeth ategol	Gradd
Mae gan y sefydliad gwricwlwm ar gyfer gwaith ieuenctid ac mae'r gweithlu yn ei gyflwyno'n hyderus.		
Mae'r sefydliad yn cynnal dadansoddiad o anghenion parhaus i lywio'r ystod a'r math o ddarpariaeth y maent yn ei chynnig i bobl ifanc. Mae darpariaeth y sefydliad yn mynd i'r afael â gwahanol anghenion, diddordebau ac amgylchiadau pobl ifanc.		
Mae pobl ifanc yn elwa wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir gan y sefydliad.		

2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Lefel Arian: Dangosyddion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Naratif hunanasesu gyda chysylltiadau â thystiolaeth ategol	Gradd
Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei bolisi/polisïau a'i ymarfer.		
Caiff effaith polisi/polisïau ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth y sefydliad ei monitro a'i gwerthuso.		
Mae polisi/polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad yn cael eu rhoi ar waith ac yn arwain at newid a gwelliant.		

2.4 Datblygu'r gweithlu

Lefel Arian: Dangosyddion Datblygu'r Gweithlu	Naratif hunanasesu gyda chysylltiadau â thystiolaeth ategol	Gradd
Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth Datblygu'r Gweithlu.		
Mae'r sefydliad yn buddsoddi mewn Datblygu'r Gweithlu ac mae'r buddsoddiad hwn i'w weld yn eu hymarfer.		
Mae gan y sefydliad weithlu sy'n addas at y diben o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.		